EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN 2019

BEIRNIAID

Llefaru:
MANON PRYSOR
SIÂN TEIFI
CARYS BOWEN
Cerddoriaeth:
GUTO PUW
ARFON WILLIAMS
LLEUCU ARFON
Dawnsio Disgo a Gwerin:
ELIN HAF
Celf a Chrefft:
COGINIO: RHIAN JONES
ARLUNIO A GWAITH CREADIGOL YSGOLION CYNRADD:
ELEN WILLIAMS
ARLUNIO, GWAITH CREADIGOL, DYLUNIO A THECHNOLEG A CHELF 3 DIMENSIWN YSGOLION UWCHRADD:
KATE SMITH
FFOTOGRAFFIAETH: BERWYN WILLIAMS
LLAWYSGRIFEN: LINDA PRITCHARD
YSGOLORIAETH: EIFION ROWLANDS

Llenyddiaeth:
Y PRIFARDD LLION JONES
MERIEL PARRY

Cyfeilyddion:
DELYTH VAUGHAN ROWLANDS (07765432431)
ANGHARAD WYN JONES (07581230908)
STEVEN JOHN EVANS (07769224320)

Telynores:
MEINIR LLWYD (Ffôn: 07967274617)

Cadeirydd y Pwyllgor Cyffredinol:
EIRIAN MARY JONES, Bethesda (Ffôn: 01248 600 274)

Ysgrifennydd Cyffredinol:
LOWRI WATCYN ROBERTS
Bryn y Môr, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, Bangor (Ffôn: 07815093955)
e-bost: l.roberts11@btinternet.com

Trysorydd:
NEVILLE HUGHES, Bethesda (Ffôn: 01248 600 853)

Rhifau Cyswllt yr Is-bwyllgorau:
Llên: Y Prifardd Ieuan Wyn (Ffôn: 01248 600 297)
Llefaru: Caren Brown (Ffôn: 01248 602 509)
Cerdd: Menai Williams (Ffôn: 01248 601 167)
Celf a Chrefft: Bryan Griffiths (Ffôn: 01248 521 140)
Dawns: Linda Brown (Ffôn: 01248 601 526)

Safle Gwe yr Eisteddfod: www.egdo.ukgateway.net

YN
NEUADD OGWEN, BETHESDA
DECHREUIR YN BRYDLON AM 6.00 O'R GLOCH YR HWYR

1. **Unawd Lleisiol:** Cyflwyniad o hyd at 8 munud.

   Croesewir unrhyw gyfuniad o'r cyfryngau isod:
   Unawd glasurol, cân werin, unawd cerdd dant, unawd allan o sioe gerdd.
   Gwobrau: *Cwpan Coffa John Llewelyn Roberts (i'w ddal am flwyddyn), a £350 i'w rannu fel y gwêl y beirniad orau.*
   CYFEILYDD: STEVEN JOHN EVANS TELYNORES: MEINIR LLWYD

2. **Unawd Offerynnol:** Cyflwyniad o hyd at 8 munud: Hunanddewisiad.

   Dalier Sylw; Disgwylir i'r cystadleuydd drefnu ei gyfeilydd ei hun.
   Gwobrau: *Tlws Ieuan Llewelyn Jones (i'w ddal am flwyddyn), a £350 i'w rannu fel y gwêl y beirniad orau.*

3. **Côr - Cymysg, Merched neu Feibion:** Cyflwyniad o hyd at 10 munud:

   Hunanddewisiad.
   Disgwylir i'r perfformiad cyfan fod yn Gymraeg.
   Gwobrau: *Tarian Alan a Susan Davies (i'w dal am flwyddyn), a £600 i'w rannu fel y gwêl y beirniad orau.*
   BEIRNIAD: GUTO PUW

4. **Perfformiad dramatig:** Cyflwyniad unigol neu dorfol o rhwng 3 ac 8 munud, gan ddefnyddio un, neu gyfuniad o'r cyfryngau canlynol: llefaru, monolog, deialog, cyflwyniad theatrig unigol.
   Gwobrau: *Plât Coffa'r Parchedig Eurof Jones (i'w ddal am flwyddyn), a £350 i'w rannu fel y gwêl y beirniad orau.*
   BEIRNIAD: MANON PRYSOR

CYFYNGEDIG I OEDRAN UWCHRADD:

5. **Rhaglen o adloniant:** o rhwng 3 ac 8 munud, gan grŵp o bedwar neu fwy.

   Croesewir unrhyw gyfrwng/cyfryngau perfformio.
   Gwobrau: Tlws Coffa Rhiannon Rowlands, a £350 i'w rannu fel y gwêl y beirniad orau.
   BEIRNIAID: GUTO PUW a MANON PRYSOR

DALIER SYLW: a): Rhoddir gwobr, gydag uchafswm o £50, ac yn gyfyngedig i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen, am y perfformiad Uwchradd mwyaf addawol.
b): Cymraeg fydd iaith unrhyw berfformiad llafar/lleisiol.
c): Rhaid anfon enwau'r cystadleuwyr, ynghyd â chopïau, at yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Gwener, Tachwedd 1. Glynir yn gaeth at hyn.
ch): Ni chaniateir i neb gyflwyno yr un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.
d): Gweler yr Amodau cyffredinol am fwy o wybodaeth.

Cynhelir defodau anrhydeddu buddugwyr cystadlaethau'r Gadair, y Fedal Ryddiaith a Medal yr Ifanc yn ystod y noson.

DYDD SADWRN, TACHWEDD 15fed, 2019
YN
NEUADD YSGOL DYFFRYN OGWEN, BETHESDA
DECHREUIR AM 10 O'R GLOCH Y BORE

Rhaid i ymgeiswyr ifainc fod yn aelodau o'r Blynyddoedd Ysgol perthnasol ar Hydref 31ain, 2019.
Lle mae ystod oedran wedi ei nodi, at oed yr ymgeisydd ar ddiwrnod yr Eisteddfod yr ydym yn cyfeirio.

DALIER SYLW: NI FYDD RHAGBROFION AR UNRHYW GYSTADLEUAETH

LLEFARU

1. Dosbarth Meithrin: “Cwningen” (Selwyn Griffith) allan o “Nesa I Adrodd” (Gwasg Pantycelyn). Gwobrau: Medal a £1, 75c, 50c.
2. Dosbarth Derbyn: “Pawb yn barod?” (Selwyn Griffith) allan o “Pawb yn Barod?” (Gwasg Gwynedd). Gwobrau: Medal a £1.25, £1, 75c.
3. Blwyddyn 1: “Y Briallu” (Eifion Wyn) allan o “Mae Modfedd yn Llawer Mewn Trwyn” (Gwasg Carreg Gwalch). Gwobrau: Medal a £1.50, £1.25 a 75c.
4. Blwyddyn 2: “Pe Bawn I yn Arddwr” (Ceri WynJones) allan o “Dwli o Ddifri” (Gwasg Gomer). Gwobrau: Medal a £1.50, £1.25 a 75c.
5. Blynyddoedd 3 a 4: “Jo y Bwji” (Selwyn Griffith) allan o “Llwyfan y Plant” (Gwasg Gwynedd). Gwobrau: Cwpan Goffa Mrs Grace Williams (i’w ddal am flwyddyn) , medal a £2, £1.50 a £1.25.
6. Blynyddoedd 5 a 6: “E.T. Evans” (Toni Llewelyn) allan o “Ych! Maen nhw’n neis” (Gwasg Carreg Gwalch). Gwobrau: Cwpan Pen Rhiw (i’w ddal am flwyddyn), medal a £2.50, £2 a £1.50.
7. Parti Ysgol Gynradd: “Hen Fodryb Lil” (Hywel Griffiths) allan o “Teigr yn y Gegin” (Gwasg Gomer). Gwobrau: Cwpan Linda Brown (i’w ddal am flwyddyn) a £15, £10 ac £8.

Bydd Cwpan Clwb Mamau Llanllechid (i'w ddal am flwyddyn) yn cael ei roi am y perfformiad unigol mwyaf addawol ym mlynyddoedd 6 ac iau.

CERDD

1. Unawd Dosbarth Meithrin: **“**Oedran” (Leah Owen) allan o “Mae Gen I Gân” (Cyhoeddiadau Curiad). *Gwobrau:* Medal a £1, 75c, 50c.
2. Unawd Dosbarth Derbyn: “Dysgu Cyfri” (Leah Owen) allan o “Mae Gen I Gân” (Cyhoeddiadau Curiad. *Gwobrau:* Medal a £1.25, £1, 75c.
3. Unawd Blwyddyn 1: **Pennill 1 a 2 yn unig** o “Can y Preseb” (Ann Morgan/Eddie Jones) allan o “Mwy o Glap a Chân” (Gwasg Y Lolfa)). *Gwobrau:* Medal a £1.50, £1.25, £1.
4. Unawd Blwyddyn 2: **“**Robin Goch” (Menai Williams) – copi ar gael gan yr Ysgrifennydd. *Gwobrau:* Medal a £1.50, £1.25, £1.
5. Unawd Blynyddoedd 3 a 4: **Pennill 1 a 2 yn unig** o “Diolch Dduw I Ti” (Ann Morgan/Eddie Jones) allan o “Mwy o Glap a Chân” (Gwasg Y Lolfa)). *Gwobrau:* Medal a £2, £1.50, £1.25.
6. Unawd Blynyddoedd 5 a 6: "Mae ‘na Faban Bach” (Robat Arwyn) allan o “Can y Ddraig” (Cyhoeddiadau Curiad). *Gwobrau:* Medal a £2.50, £2, £1.50.

7. Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau: Hunanddewisiad.
   Gwobrau: Medal a £2.50, £2, £1.50.

8. Unawd Cerdd Dant Oed Cynradd: Hunanddewisiad. **(Gweler Amodau Arbennig Cerdd Dant)**.
   Gwobrau: Medal a £2.50, £2, £1.50.
9. Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau: Hunanddewisiad - safon Gradd 1 neu uwch yr *Associated Board* (dim hwy na 3 munud). *Gwobrau:* Medal a £2.50, £2, £1.50.
10. Unawd Offerynnol (ac eithrio Piano): Blwyddyn 6 ac iau: Hunanddewisiad.
    Gwobrau: Medal a £2.50, £2, £1.50.
11. Grŵp Offerynnol (unrhyw gyfuniad) Blwyddyn 6 ac iau: Hunanddewisiad.
    Gwobrau: Plât Peter Salt (i'w ddal am flwyddyn) a £15, £10, £8.
12. Parti Unsain Oed Cynradd (dim mwy na 12 mewn nifer): Hunanddewisiad.
    Gwobrau: Tarian a £15, £10, £8.
13. Parti Cerdd Dant Oed Cynradd: Hunanddewisiad. **(Gweler Amodau Arbennig Cerdd Dant)**.
    Gwobrau: Cwpan (i'w ddal am flwyddyn) er cof am Mrs Enid De Bruin a £15, £10, £8.
14. Côr Blwyddyn 6 ac iau: Hunanddewisiad (**un** darn yn unig).
    Gwobrau: Cwpan Morfudd (i'w ddal am flwyddyn) a £50, £30, £20.

Bydd Tlws Coffa Dawn Cross (i'w ddal am flwyddyn) yn cael ei roi am y perfformiad unigol mwyaf addawol ym Mlynyddoedd 6 ac iau.

Dalier sylw: Yn y cystadlaethau Hunanddewisiad, RHAID darparu copïau ar gyfer y beirniad a'r cyfeilydd.

DAWNS

Cynhelir y cystadlaethau Dawns yn y Gampfa. Dechreuir am 10.30 o'r gloch.
Gweler y rheolau cystadlu yn Amodau Arbennig Dawns.
Bydd y buddugwyr yn ymddangos ar y llwyfan.

1. Dawns Disgo/Hip hop/Stryd Unigol oedran Cynradd. Cerddoriaeth: unrhyw gerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol. Amser: dim mwy na 2 funud. *Gwobrau:* Medal a £3, £2, £1.50.
2. Dawns Disgo/ Hip hop/Stryd Grŵp oedran Cynradd (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: unrhyw gerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol. Amser: dim mwy na 4 munud. *Gwobrau:* Tarian a £10, £8, £6.
3. Dawns Greadigol Grŵp oedran Cynradd (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: unrhyw gerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol. Amser: dim mwy na 4 munud. *Gwobrau:* Tarian a £10, £8, £6. **Thema: Hunanddewisiad**
4. Dawns Disgo/Hip hop/Stryd Unigol oedran Uwchradd. Cerddoriaeth: unrhyw gerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol. Amser: dim mwy na 2 munud. *Gwobrau:* Medal a £5, £4, £3.
5. Dawns Disgo/ Hip hop/Stryd Grŵp oedran Uwchradd (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: Unrhyw gerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol. Amser: dim mwy na 4 munud. *Gwobrau:* Tarian a £10, £8, £6.
6. Dawns Greadigol Grŵp oedran Uwchradd (dim llai na 4 mewn nifer). Cerddoriaeth: unrhyw gerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol. Amser: dim mwy na 4 munud. *Gwobrau:* Tarian a £12, £10, £8. **Thema: Hunanddewisiad.**

7. Dawns Werin Grŵp oedran Cynradd: Unrhyw ddawns draddodiadol Gymreig.
   Gwobrau: Tarian a £10, £8, £6.

LLENYDDIAETH

Anfoner y cynhyrchion at Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Llên, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda, Gwynedd LL57 3SG erbyn dydd Sadwrn, Hydref 5ed, 2019. Er mwyn i'r ysgrifennydd ddychwelyd y gwaith gyda chopi o'r feirniadaeth, gofynnir i'r ymgeiswyr ddarparu amlen wedi'i stampio a'i chyfeirio.

Adran Llên Agored

Beirniad: Y PRIFARDD LLION JONES

BARDDONIAETH

1. Cerdd hir neu ddilyniant o gerddi yn y mesurau caeth neu rydd heb fod dros 100 linell. Testun: *Clymau*. Gwobr: Model o Gadair a £75.

   Dalier sylw: Cynhelir defod y Cadeirio yn ystod cyfarfod nos Wener, Tachwedd 15fed yn Neuadd Ogwen, Bethesda.

2. Englyn. Testun: *Clo*. Gwobr: £15.

3. Englyn ysgafn. Testun: *Cam gwag*. Gwobr: £15.

4. Gorffen limrig: *Daeth Robin ar wib lawr y wifren...* . Gwobr: £15.

RHYDDIAITH

1. Y Fedal Ryddiaith. Darn o ryddiaith heb fod dros 2000 o eiriau. Thema: *Gwarchod*. Gwobr: Medal Ysgol Dyffryn Ogwen a £75.
   Dalier sylw: Cynhelir defod anrhydeddu'r buddugol yn ystod cyfarfod nos Wener, Tachwedd 15fed yn Neuadd Ogwen, Bethesda.

2. Stori Fer. Testun: *Twyll*. Gwobr: £15.

3. Erthygl neu ysgrif. Testun: *Yn y Mynydd*. Disgrifiad(au) o brofiad(au) yn y mynydd, sef yn ardal y Carneddau. Gwobr: £30. Noddir gan Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau/Parc Cenedlaethol Eryri.

4. Sgets ddigrif na chymer fwy na 10 munud i'w pherfformio. Gwobr: £30. Noddir gan Gwmni Drama'r Llechen Las ac fe'i beirniedir gan bwyllgor y cwmni.

Adran Llên yr Ifanc

Beirniad: MERIEL PARRY

Gofynnir i athrawon yr ysgolion ddethol y goreuon o blith y cyfansoddiadau yng nghystadlaethau 2 a 3 isod i'w hanfon i'r gystadleuaeth, a sicrhau eu bod yn waith dilys yr ymgeiswyr.

1. Medal yr Ifanc (Cystadleuaeth Goffa Mr a Mrs J.O. Williams a Mr a Mrs

   Emlyn Jones i ran dan 21 oed). Ysgrifennu naill ai (a) Cerdd neu ddilyniant o gerddi heb fod dros gyfanswm o 80 llinell, neu (b) Darn o Ryddiaith greadigol heb fod dros gyfanswm o 1500. Thema: *Adnabod.* Gwobr: Medal a Thocyn Llyfrau £20. Ail wobr: Tocyn Llyfrau £15. Y Fedal yn rhodd er cof am Mr a Mrs Emlyn Jones. **Dalier sylw: Cynhelir defod anrhydeddu'r buddugol yn ystod cyfarfod nos Wener, Tachwedd 15fed yn Neuadd Ogwen, Bethesda.**

2. Cystadleuaeth i ddisgyblion Blynyddoedd 7 i 9. Cerdd neu ddarn o

   ryddiaith heb fod dros 500 o eiriau. Thema: *Hawl*. Gwobr: £20 i'w

   rannu.

3. Cystadleuaeth i ddisgyblion Blynyddoedd 10 ac 11. Cerdd neu ddarn o

ryddiaith heb fod dros 500 o eiriau. Thema: *Addewid*. Gwobr: £20 i'w rannu.

CYSTADLAETHAU CYFYNGEDIG I BLANT YSGOLION CYNRADD CYLCH YR EISTEDDFOD

Gofynnir i athrawon yr ysgolion ddethol y goreuon o blith y cyfansoddiadau i'w hanfon i'r ddwy gystadleuaeth isod, a sicrhau eu bod yn waith dilys yr ymgeiswyr.

1. Ysgrifennu stori. Testun: *Storm* Gwobr: £10 i'w rannu.
2. Ysgrifennu cerdd. Testun: *Yr Afon*. Gwobr: £10 i'w rannu.

CELF A CHREFFT

Rhaid i ymgeiswyr fod yn aelodau o'r blynyddoedd ysgol perthnasol ar Hydref 31ain, 2019.

PWYSIG: Dylai pob ysgol roi enw llawn y cystadleuydd, ac enw'r ysgol, yn glir ar bob darn o waith sy'n cael ei gyflwyno. Dylai ysgolion gasglu gwaith a thystysgrifau enillwyr o ffreutur Ysgol Dyffryn Ogwen ar ddiwedd yr Eisteddfod ddydd Sadwrn, Tachwedd 16eg. Bydd gwobrau disgyblion yn cael eu rhannu gan yr ysgolion yn ystod yr wythnos ganlynol.

COGINIO

1. Blynyddoedd 3 a 4: Pedair cacen fach wedi eu hardduno
   Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.
2. Blynyddoedd 5 a 6: Pedair cacen fach wedi eu hardduno
   Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.
3. Blynyddoedd 7, 8 a 9: Pedair cacen fach wedi eu hardduno
   Gwobrau: Medal a £3, £2.50 a £2.

GWAITH CREADIGOL – CYWAITH

PWYSIG: Dylai pob ysgol sicrhau:

a) bod rhif y gystadleuaeth, a theitl y thema, wedi eu hysgrifennu ar amlen i'w chyflwyno gyda phob cywaith.

b) bod enw'r ysgol y tu mewn i'r amlen.

4. Oedran Meithrin: Yn seiliedig ar thema'r dosbarth. Gwobrau: £10 a tharian (i'w dal am flwyddyn), £5, £3.
5. Adran y Babanod: Yn seiliedig ar thema'r dosbarth. Gwobrau: £10 a tharian (i'w dal am flwyddyn), £5, £3.
6. Adran Iau: Yn seiliedig ar thema'r dosbarth. Gwobrau: £10 a tharian (i'w dal am flwyddyn), £5, £3.

GWAITH CREADIGOL – UNIGOL

7. Blwyddyn 3: Gwaith 2D neu 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.
8. Blwyddyn 4: Gwaith 2D neu 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.
9. Blwyddyn 5: Gwaith 2D neu 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.
10. Blwyddyn 6: Gwaith 2D neu 3D mewn unrhyw gyfrwng yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.

ARLUNIO

11. Oedran Meithrin: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £1, 75c, 50c.
12. Dosbarth Derbyn: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £1.25, £1, 75c.
13. Blwyddyn 1: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £1.50, £1.25, £1.
14. Blwyddyn 2: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £1.50, £1.25, £1.
15. Blwyddyn 3: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
16. Blwyddyn 4: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
17. Blwyddyn 5: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
18. Blwyddyn 6: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.

19. Blynyddoedd 7,8 a 9: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £3, £2.50, £2.
20. Blynyddoedd 7,8 a 9: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £3, £2.50, £2.

FFOTOGRAFFIAETH

21. Ysgolion Cynradd: 4 ffotograff yn seiliedig ar y thema *Bwrlwm*. Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
22. Ysgolion Uwchradd: 4 ffotograff yn seiliedig ar y thema *Bwrlwm*. Gwobrau: Medal a £3, £2.50, £2.

CARDIAU CYFARCH

Dalier sylw: Rhaid i'r cerdyn fod yn un gwreiddiol.

23. Ysgolion Cynradd: Un Cerdyn Cyfarch ar gyfer unrhyw achlysur arbennig. Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
24. Ysgolion Uwchradd: Un Cerdyn Cyfarch ar gyfer unrhyw achlysur arbennig. Gwobrau: Medal a £3, £2.50, £2.

CREU LLUN DIGIDOL AR GYFRIFIADUR

Dalier sylw: Rhaid i'r llun fod yn un gwreiddiol.

25. Blwyddyn 3: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
26. Blwyddyn 4: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
27. Blwyddyn 5: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.
28. Blwyddyn 6: Unrhyw lun yn seiliedig ar thema'r dosbarth. **Noder y thema.** Gwobrau: Medal a £2, £1.50, £1.

LLAWYSGRIFEN

Dalier sylw: Y ddau bennill cyntaf yn unig ymhob cystadleuaeth.

29. Blwyddyn 2: "Pe bawn i yn Arddwr" (Ceri Wyn Jones Jones) allan o "Dwli o Ddifri" (Gwasg Gomer). Gwobrau: Medal a £1.50, £1.25 a 75c.

30. Blynyddoedd 3 a 4: "Jo y Bwji" (Selwyn Griffith) allan o "Llwyfan y Plant" (Gwasg Gwynedd). Gwobrau: Medal a £2, £1.50 a £1.25.

31. Blynyddoedd 5 a 6: "E.T.Evans" (Toni Llewelyn) allan o "Ych! Maen nhw'n neis" (Gwasg Carreg Gwalch). Gwobrau: Medal a £2.50, £2 a £1.50.

ADRAN AGORED

32. Celf: Unrhyw ddarn o waith creadigol, gwaith 2D, 3D, gludwaith a.y.y.b. Gwobr: £20 i'w rannu.
33. Ffotograffiaeth: Ffotograff sy'n adlewyrchu'r thema *Cynefin*. Gwobr: £20 i'w rannu.

YSGOLORIAETH CELF A CHREFFT

Cynigir ysgoloriaeth o £75 i fyfyrwyr Ysgol Dyffryn Ogwen 18 oed ac iau.

34. Darn o waith celf, unrhyw gyfrwng, wedi'i gyflwyno'n safonol a gorffenedig.

Cyfarwyddiadau arbennig ar gyfer y gystadleuaeth hon:
Dylai pob cystadleuydd fod yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar Hydref 31ain, 2019. Y gwaith i'w labelu ac i gyrraedd ffreutur Ysgol Dyffryn Ogwen rhwng 4 a 5 o'r gloch brynhawn Gwener, Tachwedd 15fed, 2019.

AMODAU CYFFREDINOL

1. Mae'r holl destunau'n agored i'r byd, oni nodir yn wahanol. Rhaid i ymgeiswyr ifainc fod yn aelodau o'r Flwyddyn Ysgol berthnasol ar Hydref 31ain, 2019. Lle mae ystod oedran wedi ei nodi, at oed yr ymgeisydd ar ddiwrnod yr Eisteddfod yr ydym yn cyfeirio.
2. Mae hawl gan y Beirniad i atal neu rannu gwobrwyon, oni nodir yn wahanol.
3. Yng nghystadlaethau'r Gadair, y Fedal Ryddiaith a Medal yr Ifanc, bydd y wobr ariannol yn cael ei hatal os bydd yr ymgeisydd buddugol yn absennol.
4. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus yn yr Eisteddfod, ond gellir anfon gwrthdystiad ysgrifenedig, wedi ei lofnodi, at yr Ysgrifennydd Cyffredinol (gweler Amod Cyffredinol rhif 10 isod).
5. Mae barn y Pwyllgor yn derfynol ymhob achos.
6. Bydd cyfansoddiadau anfuddugol yn cael eu hanfon yn ôl at yr awduron os bydd Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Llên neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol, fel y bo'n briodol, yn derbyn cais ysgrifenedig, gydag amlen briodol a thâl am eu cludo, o fewn mis ar ôl yr Eisteddfod (gweler Amodau Cyffredinol Rhifau 8 a 10 isod).

7. Ni ellir dal y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw gynhyrchion sy'n cael eu hanfon i'r Eisteddfod.

8. Mae'r holl **gyfansoddiadau llenyddol** i fod yn llaw **Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Llên**, Ieuan Wyn, Talgarreg, 85 Ffordd Carneddi, Bethesda, Gwynedd LL57 3SG, erbyn **DYDD SADWRN, HYDREF 5ed, 2019**. **Cedwir yn fanwl at y rheol hon.**

9. Dylid nodi ffugenw yn unig ar waith sy'n cael ei anfon (**ac eithrio** gwaith Celf a Chrefft gan ysgolion, lle dylid rhoi enw llawn y cystadleuydd, ac enw'r ysgol, yn glir ar bob darn o waith a gyflwynir).
Dylid rhoi'r enw priodol a'r cyfeiriad mewn amlen dan sêl, gyda'r ffugenw a theitl y gystadleuaeth oddi allan. ONI CHEDWIR YN FANWL AT Y RHEOL HON, NI FYDD Y CYNHYRCHION YN CAEL EU HANFON AT Y BEIRNIAD.

10. Mae enwau'r **cystadleuwyr llwyfan** i fod yn llaw'r **Ysgrifennydd Cyffredinol,** Lowri Watcyn Roberts, Bryn y Môr, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4NY, erbyn **DYDD GWENER, TACHWEDD 1af, 2019.**

Gweler hefyd Amodau Arbennig Adran Cerdd, ac Adran Cerdd Dant.

11. Cymraeg fydd iaith unrhyw berfformiad llafar/lleisiol.

12. Ni chaniateir i neb gyflwyno yr un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.

AMOD ARBENNIG ADRAN LLEFARU

1. Mewn cystadleuaeth **Hunanddewisiad** dylid darparu copi ar gyfer y beirniad.

AMODAU ARBENNIG ADRAN CERDD

1. Bydd hawl i newid cyweirnod yn Unawdau Dosbarth Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 – copïau ar gael gan yr Ysgrifennydd.

2. Y cyfeilyddion swyddogol yn unig sydd â chaniatâd i gyfeilio, ac eithrio i unawdwyr offerynnol, partïon a chorau – **disgwylir iddynt hwy drefnu eu cyfeilyddion eu hunain.**

3. Rhoddir telerau arbennig parthed mynediad i bartïon a chorau. Dylid gwneud cais i'r Ysgrifennydd Cyffredinol (gweler Amod Cyffredinol Rhif 10 uchod).

4. Dylid darparu 2 gopi mewn cystadleuaeth **Hunanddewisiad** - un i'r beirniad a'r llall i'r cyfeilydd.

Dalier sylw: RHAID anfon y rhain at yr Ysgrifennydd erbyn Tachwedd 1af, 2019. Oni wneir hyn, bydd hawl gan y cyfeilydd i wrthod cyfeilio.

AMODAU ARBENNIG CERDD DANT
Dalier Sylw: Bydd y Pwyllgor yn glynu'n gaeth at amodau 2 a 3.

1. Mae'r holl gystadlaethau yn ddarostyngedig i Reolau Cymdeithas Cerdd Dant Cymru.

2. Rhaid anfon copi o'r gainc, yn y cyweirnod a ddymunir, at yr Ysgrifennydd erbyn **Tachwedd 1af, 2019. Oni wneir hyn, bydd hawl gan y delynores i wrthod cyfeilio.**
(Gweler Amod Cyffredinol Rhif 10).

3. Rhaid sicrhau copi o'r geiriau a'r gainc ar gyfer y beirniad.

4. Bydd cyfle i ymarfer gyda'r delyn yn ystod yr Eisteddfod - gwneir cyhoeddiad o'r llwyfan o'r amser a'r lleoliad.

AMODAU ARBENNIG DAWNS

1. Er na fydd yr Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd yn mynd dros amser, fe'u cosbir drwy dynnu 5 marc oddi arnynt am bob hanner munud, neu ran o hanner munud, y byddant yn ei gymryd dros yr amser.

2. Bydd y perfformiad yn cael ei amseru o'r symudiad cyntaf sy'n cael ei wneud i'r gerddoriaeth.

3. Pan fydd unigolyn neu grŵp yn defnyddio cerddoriaeth sydd wedi ei recordio ymlaen llaw, neu yn chwarae'n fyw unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi'n fasnachol, **cyfrifoldeb yr unigolyn neu'r grŵp hwnnw yw sicrhau'r caniatâd hawlfraint.**

4. Ni chaniateir unrhyw symudiadau gymnasteg, e.e. olwyn drol, sbring arab, sefyll ar y dwylo, a.y.y.b.

5. Mae dawnswyr i wisgo dillad sy'n addas ar gyfer y dawnsio.

6. Disgwylir i'r cystadleuwyr ddod â'u hoffer sain eu hunain. Bydd socedi trydan ar gael yn y Gampfa a'r Neuadd.

AMODAU ARBENNIG ADRAN CELF A CHREFFT

1. Mae holl gynnyrch yr Adran hon i gyrraedd Ffreutur Ysgol Dyffryn Ogwen **rhwng 4 a 5 o'r gloch BRYNHAWN GWENER, TACHWEDD 15fed, 2019.**

2. Bydd y beirniadu'n dechrau'n brydlon am 5.30 o'r gloch.

3. Bydd arddangosfa o'r cynnyrch yn cael ei chynnal yn Ffreutur Ysgol Dyffryn Ogwen ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

4. RHAID I ENILLYDD YR YSGOLORIAETH GASGLU EI GYNNYRCH/CHYNNYRCH O'R ARDDANGOSFA YN BRYDLON **RHWNG 4 a 5 o'r gloch BRYNHAWN SADWRN**, **TACHWEDD 16eg, 2019.**

5. Anfonir y gwobrau at yr enillwyr ar ôl yr Eisteddfod.

6. Rhaid i ymgeiswyr fod yn aelodau o'r Blynyddoedd Ysgol perthnasol ar **Hydref 31ain, 2019.**

AMOD ARBENNIG ADRAN LLÊN

1. Disgwylir i'r cynhyrchion fod yn waith dilys yr ymgeisydd, heb eu gwobrwyo mewn cystadleuaeth o'r blaen, a heb eu cyhoeddi. Sylwer yn fanwl hefyd ar Amod Cyffredinol Rhif 8.